

## Agenda – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom	Fay Bowen
Dyddiad: Dydd Llun, 1 Mawrth 2021	Clerc y Pwyllgor
Amser: 08.30	0300 200 6565
	<a href="mailto:SeneddArchwilio@senedd.cymru">SeneddArchwilio@senedd.cymru</a>

### (Rhag-gyfarfod preifat)

(09.00 – 09.15)

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar [www.senedd.TV](http://www.senedd.TV)

- 1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**  
(09.15)

- 2 **Papur(au) i'w nodi**

(09.15 – 09.30)

- 2a **Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru  
(11 Chwefror 2021)**

(Tudalennau 1 – 60)

- 2b **Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (12 Chwefror 2021)**

(Tudalennau 61 – 63)

- 3 **Myfyrdod ar y Pumed Cynulliad/y Pumed Senedd: Llywodraeth Cymru – Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / GIG Cymru**  
(09.30 – 10.30)

(Tudalennau 64 – 70)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

Dr Andrew Goodall – Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru



- 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:**

(10.30)

Eitemau 5 a 6 a'r cyfarfodydd ar 8, 15 a 22 Mawrth 2021

- 5 Myfyrdod ar y Pumed Cynulliad/y Pumed Senedd: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law**

(10.30 – 10.50)

- 6 Rhwystrau i Weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus: Trafod yr adroddiad drafft, a chytuno arno**

(10.50 – 12.30)

(Tudalennau 71 – 157)

PAC(5)-07-21 Papur 1 – Adroddiad drafft

PAC(5)-07-21 Papur 2 – Datganiad ysgrifenedig Gan Lywodraeth Cymru:

Llunio Dyfodol Cymru: Cyflawni'r Cerrig Milltir Llesiant Cenedlaethol a'r Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol ac adroddiad ar ddyfodol Cymru (19 Chwefror 2021)



Nick Ramsay AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Ein Cyf/Our Ref:

12 Chwef 2021

Annwyl Mr Ramsay

Mae'n bleser gennyf roi'r wybodaeth ddiweddaraf isod am Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, y cynnydd a wnaed wrth roi'r argymhellion o 2018 ar waith, ac ymateb i'r materion a nodwyd yn eich llythyr dyddiedig 26 Tachwedd.

Mae ymateb i bandemig COVID-19 wedi bod yn flaenoriaeth tra phwysig i bob rhan o GIG Cymru yn ystod 2020. Rwy'n falch o'r cyfraniad y mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi'i wneud wrth ddarparu ymateb digidol amserol ac effeithiol. Fel y nododd y Pwyllgor yn ei adroddiad a'i waith craffu, ac fel y disgrifiwyd yng nghynllun Cymru lachach, mae technoleg ddigidol yn ffordd bwysig o fynd i'r afael â bron popeth a wnawn mewn system gofal iechyd fodern. Daeth hyn yn bwysicach fyth mewn cyfnod lle bu'n rhaid i'r rhan fwyaf o bobl aros gartref a gweithio gartref hefyd, fel y gwelwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Erbyn dechrau mis Ebrill, roeddem wedi sefydlu trefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau cydweithredol newydd a oedd yn dwyn ynghyd Lywodraeth Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, arweinwyr digidol o bob sefydliad GIG, a rhanddeiliaid allanol allweddol, gan gynnwys rhanddeiliaid o'r sector gofal cymdeithasol.

Erbyn dechrau mis Mai, roedd dulliau gweithio o bell drwy Microsoft Teams yn cael eu defnyddio i weithlu cyfan GIG Cymru a rhoddwyd gwasanaethau ymgyngoriadau digidol Attend Anywhere ar waith ledled Cymru. Gwnaethom uwchraddio lled band y rhwydwaith a'r gallu i weithio o bell a rhoi dyfeisiau symudol newydd i filoedd o staff y GIG.

Erbyn dechrau mis Mehefin, roeddem wedi comisiynu a datblygu gwasanaeth olrhain cysylltiadau cenedlaethol a'i roi ar waith, hyfforddi a pharatoi dros ddwy fil o staff olrhain cysylltiadau o fwy na 30 o sefydliadau'r sector cyhoeddus, a rhoi'r gallu i bob meddyg teulu yng Nghymru weithio o bell.

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.*



BUDDSODDWYR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park  
Caerdydd • Cardiff  
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 03000 251643  
Andrew.Goodall@gov.wales  
Gwefan • website: [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)  
[www.gov.wales](http://www.gov.wales)

Yn ystod yr haf, cafodd y gwasanaeth olrhain cysylltiadau ei uwchraddio ar gylch rhyddhau pedair wythnos, a chafodd ei integreiddio'n llawn yn ein gwasanaeth profi cenedlaethol, drwy System Rheoli Gwybodaeth Labordy Cymru. Ym mis Medi, pan lansiwyd ap COVID-19 y GIG fel llwyfan ar y cyd i Gymru a Lloegr, wedi'i gyfieithu'n llawn a'i addasu i ardaloedd penodol, llwyddom i gofnodi pob prawf yng Nghymru ar yr ap, sawl wythnos cyn Lloegr. Hyd yn hyn, mae ap COVID-19 y GIG wedi cael ei lawrlwytho dros 22 miliwn o weithiau ledled Cymru a Lloegr.

Erbyn dechrau mis Rhagfyr, roeddem wedi rhoi system rheoli brechlynnau genedlaethol ar waith ledled Cymru, sydd wedi cael ei defnyddio gan bob un o sefydliadau GIG Cymru ac sydd ar waith ym mhob practis meddyg teulu. Mae systemau allweddol, gan gynnwys System Rheoli Gwybodaeth Labordy Cymru, wedi cael eu huwchraddio er mwyn cynyddu'r gallu a'r ymarferoldeb i ymdrin â galwadau COVID-19. Mae seilwaith lled band cenedlaethol a chydnerthedd wedi cael eu gwella ymhellach hefyd. Mae rhagor o ddyfeisiau symudol wedi cael eu darparu i staff y GIG, staff awdurdodau lleol a chartrefi gofal drwy raglen Cymunedau Digidol Cymru, sy'n rhaglen cynhwysiant digidol.

Mae'r gwaith trawsnewid digidol yn 2020 wedi bod ar gyflymder a graddfa nas gwelwyd o'r blaen ac rwy'n ddiolchgar i'r timau yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, GIG Cymru, Llywodraeth Cymru ac mewn awdurdodau lleol am yr hyn a gyflawnwyd.

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod rhaglen trawsnewid digidol helaeth iawn eisoes wedi'i chynllunio ar gyfer 2020, gan gynnwys buddsoddiad sylweddol uwch mewn rhagleni cenedlaethol, creu Awdurdod lechyd Arbennig Digidol, fframwaith llywodraethu newydd, rolau arwain cenedlaethol newydd, a gwaith uwchraddio i elfennau allweddol o seilwaith digidol a dyfeisiau ym mhob rhan o GIG Cymru. Roedd hyn oll yn ychwanegol at y 'gwaith arferol' o ddarparu systemau digidol cenedlaethol hanfodol.

Nid yw ein capaciti cyflawni digidol yn ddiderfyn, a bu'n rhaid blaenorriaethu'r ymateb i COVID-19 o fis Mawrth 2020 ymlaen. Mae hyn wedi arwain at oedi mewn perthynas â rhai o'r newidiadau arfaethedig a gyhoeddwyd gan y Gweinidog ym mis Medi 2019, ac a drafodwyd â'r Pwyllgor yn fuan wedi hynny. Disgrifir cynnydd yn erbyn y camau gweithredu hynny isod.

Disgwyliaf y bydd cyflymder trawsnewid digidol yn parhau dros y 12 mis nesaf, a gwn fod arweinwyr digidol ym mhob rhan o'r system yn ystyried y ffyrdd gorau o gefnogi timau cyflawni drwy'r cyfnod hwn. Rwy'n ymwybodol o'r pwysau y mae blaenorriaethu'r ymateb i COVID-19, cynnal gwasanaethau rheolaidd, creu sefydliad cyflawni digidol cenedlaethol newydd, trosglwyddo i drefniadau llywodraethu newydd, a chynyddu buddsoddiad strategol ymhellach fel rhan o'r gwaith o adfer ac ailadeiladu ar ôl COVID-19, a gwneud hyn i gyd ar yr un pryd, yn ei roi ar unigolion.

Mae llawer i'w wneud o hyd, wrth gwrs, ond rwyf o'r farn ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran y pryderon a nodwyd gan y Pwyllgor yn ei Adroddiad yn 2018. Disgwyliaf y byddwn yn gweld rhagor o welliannau dros y flwyddyn nesaf, wedi'u cefnogi gan fwy o fuddsoddiad a threfniadau cyflawni, llywodraethu ac arwain newydd.

## Diweddariad ar Gynnydd Cyffredinol

### **Cynnydd o ran gweithredu argymhellion blaenorol Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gyfer systemau gwylbodeg yn GIG Cymru.**

*Ym mis Tachwedd 2019, nododd Llywodraeth Cymru fod pump o argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi'u cwblhau a bod saith yn mynd i gael eu cwblhau cyn bo hir. Roedd angen camau gweithredu pellach ar gyfer chwech arall ac roedd angen aros i'r Adolygiadau Llywodraethu a Saerniaeth gael eu cwblhau cyn ystyried ymhellach.*

Gwnaed cynnydd da wrth gyflawni camau gweithredu sy'n weddill drwy 2020, a cheir crynodeb o hyn yn Atodiad A i'r llythyr hwn. Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Grŵp lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn adolygu'r argymhellion a'r camau gweithredu sy'n weddill gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mhob cyfarfod, ac yn cael diweddariad rheolaidd ar gynnydd digidol a chyflawni'n gyffredinol hefyd.

O'r 13 o gamau gweithredu a oedd ar agor ym mis Tachwedd 2019, mae pob un wedi'i gwblhau heblaw un. Mae hon yn garreg filltir bwysig sy'n rhan o sicrhau y trosglwyddir yn daclus o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i'r Awdurdod lechyd Arbennig Digidol newydd a ddaw i rym ar 1 Ebrill. Y cam gweithredu sy'n weddill yw:

- *Dylai Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Gwybodeg a chyrff y GIG gydwethio i archwilio opsiynau er mwyn sicrhau'r staff a'r datblygwyr TGCh profiadol sydd eu hangen ar y Gwasanaeth o fewn cyd-destun cynllun gweithlu cynhwysfawr a chan ystyried y staff TGCh sydd ar gael i gyrrff y GIG. (argymhelliad 11)*

Ymdrinnir â'r cam gweithredu hwn yn ystod 2021 fel rhan o waith ehangach ar adolygiad strategol o'r gweithlu, sy'n gysylltiedig â rhaglen newid sefydliadol yn y corff newydd, fel y disgrifir isod.

**Cynnydd o ran datblygu a chyflawni cynlluniau o ran 'seilwaith digidol', 'gweithlu digidol', 'masnachol digidol' a 'chyfathrebu digidol', ac esboniad o sut y gallai unrhyw oedi effeithio ar y broses o ddatblygu'r Awdurdod lechyd Arbennig Digidol newydd.** *Ym mis Tachwedd 2019, nododd Llywodraeth Cymru y byddai'r cynlluniau seilwaith digidol a gweithlu digidol wedi'u cwblhau erbyn gwanwyn 2020 ac y byddai wedyn yn gwneud gwaith ar strategaethau masnachol digidol a chyfathrebu digidol.*

Mae'r cam cyntaf o adolygiad strategol o seilwaith wedi cael ei gwblhau ond mae pwysau yn sgil COVID-19 wedi oedi gwaith ar adolygiadau o'r elfennau gweithlu, masnachol a chyfathrebu digidol. Er bod yr amserlen ar gyfer sefydlu Awdurdod lechyd Arbennig Digidol wedi cael ei diwygio o 1 Hydref 2020 i 1 Ebrill 2021, roedd hyn oherwydd pwysau yn sgil COVID-19, yn hytrach nag oedi wrth gynnwl y tri adolygiad strategol.

Bwriedir cynnal yr adolygiad o'r gweithlu yn ystod haf 2021. Bydd yr amserlen ddiwygiedig hon yn sicrhau bod y Prif Swyddog Digidol ar gyfer lechyd a Gofal yn

gallu llywio'r adolygiad, fel arweinydd proffesiynol ar gyfer iechyd a gofal digidol yng Nghymru, a bydd yn sicrhau bod cysylltiad rhwng yr adolygiad o'r gweithlu a rhaglen newid sefydliadol fewnol y bydd yr Awdurdod Iechyd Arbennig Digidol newydd yn ymgymryd â hi yn ystod ei blwyddyn gyntaf. Bydd hefyd yn galluogi'r adolygiad o'r gweithlu i ystyried gwersi a ddysgwyd o'r ffordd y darparwyd yr ymateb digidol i COVID-19. Ar wahân i'r adolygiad hwn o'r gweithlu, a fydd yn canolbwytio ar sgiliau digidol proffesiynol, cyhoeddwyd strategaeth gweithlu deng mlynedd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ym mis Hydref 2020, sy'n cynnwys 'adeiladu gweithlu sy'n barod yn ddigidol' fel un o'r saith prif thema.

Caiff yr adolygiad o gyfathrebu ei gynnal erbyn mis Rhagfyr 2021. Bydd hunaniaeth gorfforaethol yr Awdurdod Iechyd Arbennig Digidol newydd a chylch gwaith y Prif Swyddog Digidol i gynrychioli iechyd a gofal digidol ar sail system gyfan yn ystyriaethau allweddol ar gyfer yr adolygiad. Mae cyfathrebu ac ymgysylltu yng Nghymru a gyda rhannau eraill o'r DU wedi bod yn nodwedd o'r ymateb i COVID-19 a fydd hefyd yn cael ei ystyried.

Caiff yr adolygiad masnachol ei gynnal erbyn mis Mawrth 2022. Mae pwysau dwys wedi bod ar y proffesiwn a'r gwasanaeth caffael dros y 12 mis diwethaf, er enghraift o ran sicrhau cyflenwad o Gyfarpar Diogelu Personol. Cynigir newidiadau i reoliadau caffael y DU, ac mae mwy o ddiddordeb yn yr economi sylfaen a'r gadwyn gyflenwi leol fel polisi datblygu economaidd. Mae'n debygol y bydd gweithio gyda'r diwydiant drwy bartneriaethau masnachol yn parhau i fod yn nodwedd o'r ymateb i COVID-19 a'r gwaith adfer ar ôl COVID-19. Caiff yr adolygiad ei gynnal pan fydd y cyd-destun polisi a rheoliadol yn fwy sefydlog, a phan fydd yn gallu myfyrio ar ddysgu o weithgarwch masnachol a chaffael drwy 2020 a 2021.

**Cynnydd tuag at gyflawni cynllun gweithredu'r adolygiad saerniäeth erbyn mis Tachwedd 2022.** Nododd yr adolygiad saerniäeth y camau yr oedd angen i Lywodraeth Cymru eu cymryd o fewn 3-9 mis, o fewn blwyddyn i ddwy flynedd, ac o fewn dwy i dair blynedd, i roi'r saerniäeth ddigidol angenrheidiol ar waith i gyflawni ei huchelgais ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn brydlon, fel y nodir yn strategaeth Cymru lachach. Ym mis Tachwedd 2019, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i geisio gwneud cymaint o gynnydd â phosibl dros gyfnod o bedwar mis a chwe mis, ond pwysleisiwyd hefyd y gallai ffactorau fel Brexit a recriwtio fod yn heriau o ran cyflawni'r nodau.

Mae egwyddorion a blaenoriaethau a nodwyd yn yr adolygiad saerniäeth wedi cael eu cymhwys i brif elfennau'r ymateb i COVID-19, ac i fuddsoddiad mewn seilwaith rhwydwaith a dyfeisiau defnyddwyr. Mae systemau a ddatblygwyd fel rhan o'r ymateb i COVID-19 wedi cael eu cynllunio i ryngweithredu'n effeithiol gyda systemau eraill yng Nghymru a ledled y DU, drwy safonau a rhngwynebau diffiniedig. Mae gwaith safoni cadarn wedi mynd rhagddo ar gyfer Cymru gyfan mewn perthynas ag ymgyngoriadau fideo, olrhain cysylltiadau a darparu brechlynau. Llwyddwyd i roi'r systemau hyn ar waith yn gyflym, yn ogystal â darparu Microsoft Teams ac Office 365 yn gyflymach i weithlu cyfan GIG Cymru, drwy ddefnyddio dull lletya ar y cwmwl a niwtral o ran dyfeisiau.

Gwelwyd cynnydd cyflym iawn yn y meysydd hyn, ond mae gwaith pellach i'w wneud ar wasanaethau iechyd a gofal presennol, a fydd yn cymryd peth amser oherwydd

amserlenni contractiol a chymhlethdod cynhenid rhai systemau. Mae egwyddorion o'r adolygiad saerniaeth wedi'u cynnwys fel gofynion safonol ar gyfer yr holl gyllid a ddyrennir drwy'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, ni all cyflenwyr uwchraddio systemau i letya ar y cwmwl, neu nid oes gwasanaeth addas a gaiff ei letya ar y cwmwl ar gael gan y farchnad cyflenwyr.

Argymhellwyd y Cynllun Gweithredu a'r heriau penodol yn yr adolygiad saerniaeth ganol 2019. Mae'r cyd-destun ar gyfer iechyd a gofal digidol yng Nghymru wedi trawsnewid ers hynny. Fel rhan o waith cynllunio buddsoddiad cyflymach pellach mewn technoleg ddigidol yn ystod 2021 a 2022, bydd y camau gweithredu a'r heriau'n cael eu hadolygu i roi sicrwydd eu bod yn parhau i fod yn gyson â blaenoriaethau a chyfleoedd o ran y system, ac yn ystyried gwersi a ddysgwyd o'r ymateb i COVID-19.

## **Materion Penodol**

**Camau a gymerwyd ers mis Tachwedd 2018 i sicrhau prosesau agored a thryloyw wrth adrodd ar gynnydd o ran sicrhau trawsnewid digidol ym maes gofal iechyd yng Nghymru cyn creu'r Awdurdod Iechyd Arbennig Digidol.** Ym mis Tachwedd 2018, nododd adroddiad y Pwyllgor bryderon ynghylch diwylliant o hunan-sensoriaeth a diarddeliad ymhlieth y rhai sy'n gyfrifol am sicrhau trawsnewid digidol ym maes gofal iechyd Cymru. Ym mis Tachwedd 2019, nododd Llywodraeth Cymru y byddai sefydlu'r Awdurdod yn mynd i'r afael â'r mater hwnnw yn rhannol. Fodd bynnag, ni fydd yr Awdurdod yn weithredol tan fis Ebrill 2021 ar y cynharaf.

Yn ystod 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi cryfhau trefniadau adrodd a rheoli mewn sawl ffordd. Gan weithio gyda Phwyllgor Archwilio Felindre, mae cyfarfod Archwilio Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru penodedig bellach yn cael ei gynnal, gyda phapurau'n cael eu cyhoeddi yn yr un ffordd ag unrhyw sefydliad GIG arall. Er nad oedd wedi'i gynnwys yn ffurfiol yn Fframwaith Cynllunio'r GIG, mae Cynllun Tymor Canolig Integredig Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi cael ei adolygu a'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i defnyddir i lywio cyfarfodydd rheoli misol. Mae llythyr ad-dalu Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi'i ddiweddu, gan gynnwys fframwaith uwchgyfeirio, a llythyr gan Swyddog Atebol i'r Cyfarwyddwr Dros Dro, yn cynnig trefniadau llywodraethu mwy cadarn. Mae Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi bod yn bresennol yng nghyfarfodydd grŵp gweithredol GIG Cymru ers dechrau pandemig COVID-19. Penodwyd Cadeirydd Awdurdod Iechyd Arbennig Digidol dros dro ym mis Tachwedd ac mae'n bresennol yng nghyfarfodydd grŵp cadeiryddion y GIG. Mae'r mesurau hyn wedi atgyfnerthu trefniadau adrodd a monitro yn sylweddol ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer sefydlu'r Awdurdod Iechyd Arbennig Digidol.

Fel rhan o'r gwaith trawsnewid digidol, cadarnhawyd fframwaith llywodraethu newydd ym mis Mawrth 2020, gan bennu swyddogaethau atebolwydd, sicrwydd a chyngori yn fwy eglur, a gyda phwyslais cryf ar dryloywder. Gohiriwyd y broses o drosglwyddo i'r trefniadau llywodraethu newydd hyn ar ddechrau pandemig COVID-19. Sefydlwyd Cell Ddigidol newydd ar gyfer COVID-19 ym mis Mawrth 2020, a fu'n cyfarfod deirgwaith yr wythnos yn y lle cyntaf, ac yr oedd ei haelodau yn cynnwys arweinwyr digidol o holl sefydliadau'r GIG a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae'r Gell

Ddigidol ar gyfer COVID-19 wedi bod yn rhan allweddol o allu gwneud penderfyniadau a chyflawni yn gyflym, gan oruchwyllo cynnydd y gwaith trawsnewid digidol mewn amser real. O ganlyniad i raddfa a phwysigrwydd datblygiadau digidol a'r broses o'u rhoi ar waith ledled Cymru mewn ymateb i COVID-19, mae cysylltiad Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ag ymateb y system wedi bod yn weladwy iawn ac mae wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid allanol, sydd wedi cynyddu tryloywder ac atebolrwydd.

Ers mis Rhagfyr, mae cylch gwaith y Gell Ddigidol ar gyfer COVID-19 wedi newid i gynllunio ar gyfer trawsnewid digidol fel rhan o'r cyfnod adfer ar ôl COVID-19, gan oruchwyllo'r ymateb i COVID-19 (e.e. systemau olrhain, profi, a brechu digidol) drwy Grŵp Llwybr Digidol Profi, Olrhain, Diogelu newydd. Ceir diweddarriadau rheolaidd gan y grwpiau hyn mewn perthynas â COVID-19 a threfniadau wrth gefn ehangach ar lefel y GIG a Llywodraeth Cymru.

Caiff y fframwaith llywodraethu newydd ei gyflwyno yn ystod hanner cyntaf 2021, ar y cyd â'r Awdurdod Iechyd Arbennig Digidol newydd a phenodiadau i rolau arwain cenedlaethol, gan gynnwys y Prif Swyddog Digidol ar gyfer Iechyd a Gofal.

**Sylwadau ar unrhyw newidiadau nodedig ym mlaenoriaethau digidol a dull strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru, gan ystyried yr hyn a ddysgwyd yn sgil ei ymateb i bandemig COVID-19.** Yn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2019 trafodwyd dull strategol Llywodraeth Cymru fel y'i nodir mewn dogfennau, megis ei Chynllun Gwybodeg 2019-2022 a'r adolygiadau saernïaeth a llywodraethu. Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig wedi cynnwys sawl menter TG ar draws gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd. Er enghraifft, gwella gallu meddygon teulu i weithio'n ddigidol ac o bell, fel y gallant gynnig ymgyngoriadau fideo.

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cwblhau archwiliad manwl cychwynnol o drawsnewid digidol, dan arweiniad aelod annibynnol a gyda chymorth gan swyddogion. Mae hyn wedi nodi agweddau allweddol ar yr ymateb digidol i COVID-19 y gellid eu cymhwys o at y cyfnod adfer ar ôl COVID-19 ac at drawsnewid yn gyffredinol:

- Mae adeiladu o raglenni presennol yn helpu i sicrhau'r budd mwyaf posibl yn gyflym ac yn cynnig trefniadau llywodraethu a sicrwydd mwy sefydlog;
- Mae datrysiau ar y cwmwl y gellir eu cyflwyno ar raddfa ehangach wedi ysgogi safoni yn ogystal â chyflymder cyflawni;
- Mae darparu hyfforddiant o ansawdd da o bell drwy 'weminarau' yn hytrach na desgiau gwasanaeth a 'hyfforddwyr crwydro' yn golygu y gellir darparu hyfforddiant ar raddfa fawr gan arbenigwyr pwnc gan gynnig cyfleoedd mewn amser real i rannu adborth a gwella;
- Yr angen am sylfaen gref o seilwaith digidol, seiberddiogelwch, saernïaeth a'r gallu i ryngweithredu.

Yn bwysicaf oll, mae'r ymateb i COVID-19 wedi dangos cysondeb cryf â chynllun *Cymru lachach*, er enghraifft mewn perthynas â ffyrdd gwahanol o ddarparu gwasanaethau sy'n 'nes at y cartref', galluogi hunanreolaeth, defnyddio technoleg ddigidol fel ffordd o hwyluso newid, a sicrhau bod gwasanaethau'n gyson ledled

‘Cymru gyfan’.

Mae'r gwaith o gynllunio rhagleni trawsnewid digidol strategol yn 2021 yn cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gell Ddigidol. Hwn oedd y prif grŵp gwneud penderfyniadau a chydgyssylltu ar gyfer yr ymateb digidol i COVID-19, a fydd yn sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu cymhwysyo at y cyfnod adfer ar ôl COVID-19 ac at waith trawsnewid digidol parhaus.

Tynnir sylw at dechnoleg ddigidol yng nghynllun *Cymru lachach* fel ffordd o sicrhau trawsnewid ac adlewyrchir hyn yn y buddsoddiad ychwanegol sylweddol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2019, ac mewn buddsoddiad ychwanegol mewn technoleg ddigidol a nodwyd yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2021/22. Mae'n glir hefyd fod technoleg ddigidol wedi bod yn ffordd bwysig o sicrhau ymateb effeithiol ac amserol i COVID-19. Er bod yr ymateb i COVID-19 yn parhau, disgwyliaf y cyhoeddir sawl adolygiad cynnar o arloesedd a gwersi a ddysgwyd yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Bydd y rhain o ddiddordeb ar gyfer arloesedd a thrawsnewid yn gyffredinol, yn ogystal ag ar gyfer technoleg ddigidol ac, yn ei gyfarfod nesaf ym mis Chwefror, bydd agenda Bwrdd Gweithredol GIG Cymru yn canolbwytio ar ddulliau adfer, gan gynnwys adolygiad o gamau gweithredu yng nghynllun Cymru lachach ac opsiynau ar gyfer ariannu gwasanaethau iechyd a gofal integredig yn y dyfodol.

**Y diweddaraf ynglŷn â reciwtio i rolau arweinyddiaeth ddigidol allweddol.** Ym mis Chwefror 2020, rhoddodd Llywodraeth Cymru fanylion pellach am rolau'r Prif Swyddog Digidol, y Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol a'r Prif Swyddog Safonau Technoleg. Nododd hefyd fod yr amserlen ar gyfer penodi'r Prif Swyddog Digidol yn parhau i fod yn ddibynnol ar sefydlu Awdurdod Iechyd Arbennig Gweithredol arfaethedig y GIG, lle bydd y rôl wedi'i lleoli. Fodd bynnag, byddai hefyd yn ymchwilio i opsiynau eraill ar gyfer lletya swydd y Prif Swyddog Digidol yn y cyfamser, er mwyn inni allu bwrw ymlaen â'r broses reciwtio cyn gynted ag y bo modd.

Mae'r broses o reciwtio'r Prif Swyddog Digidol a'r rolau ategol wedi cael ei gohirio oherwydd pwysau yn sgil COVID-19. O ystyried y capaciti cyfyngedig a'r angen i flaenoriaethu, penderfynwyd bod cynnal yr ymateb i COVID-19 a sefydlu'r Awdurdod Iechyd Arbennig Digidol yn fwy o flaenoriaeth na phenodi'r Prif Swyddog Digidol. Roedd hyn hefyd yn adlewyrchu'r angen i ddiogelu'r gofynion deddfwriaethol a'r amserlen ar gyfer creu sefydliad GIG Cymru newydd.

Mae'r gwaith o sefydlu Awdurdod Iechyd Arbennig Gweithredol arfaethedig y GIG wedi cael ei ohirio ac mae swyddogion wedi ystyried trefniadau lletya dros dro. Mae pob rhan o GIG Cymru wedi bod o dan bwysau eithriadol ers dechrau pandemig COVID-19 ac mae wedi cymryd peth amser i gadarnhau trefniadau lletya priodol, o ystyried yr angen i allu cynllunio trefniadau reciwtio a llywodraethu newydd a'u rhoi ar waith.

Ym mis Rhagfyr, cadarnhawyd trefniadau gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i lletya ‘Swyddfa'r Prif Swyddog Digidol’ dros dro gyda'r disgwyliad y byddai'r swyddogaeth hon yn cael ei throsglwyddo i Awdurdod Iechyd Arbennig Gweithredol y GIG maes o law. Bydd hyn yn golygu y gellir bwrw ymlaen â'r broses o reciwtio

Prif Swyddog Digidol ar gyfer lechyd a Gofal gyda phenodiadau pellach i ddilyn. Disgwyliaf y bydd yr hysbyseb yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf, a'r gobaith yw y bydd y Prif Swyddog Digidol yn ei swydd erbyn yr haf.

Cafodd Bob Hudson ei benodi fel Cadeirydd dros dro'r Awdurdod lechyd Arbennig Digidol, o'r enw lechyd a Gofal Digidol Cymru, ym mis Tachwedd. Mae'r gwaith o recriwtio is-gadeirydd ac aelodau annibynnol yn mynd rhagddo, a chaiff cyfweliadau eu cynnal ddechrau mis Chwefror. Mae'r gwaith o recriwtio pobl i rolau gweithredol allweddol, y mae angen iddynt fod mewn swydd erbyn 1 Ebrill 2021, yn mynd rhagddo hefyd. Cafodd rôl y Prif Swyddog Gweithredol ei hysbysebu ym mis Rhagfyr ar gyfer ceisiadau gan staff GIG Cymru. Gan na chafwyd digon o geisiadau cymwys, mae'r panel penodi wedi penderfynu ailhysbysebu'r rôl yn agored. Mae Helen Thomas, sef Cyfarwyddwr dros dro Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, wedi cael ei phenodi fel Prif Weithredwr dros dro yr Awdurdod lechyd Arbennig Digidol newydd.

**Gwybodaeth am sut mae GIG Cymru, gan gynnwys Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, wedi ymgysylltu â datblygiad a gwaith y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol a sut berthynas y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhagweld rhwng yr Awdurdod lechyd Arbennig Digidol newydd a'r Ganolfan yn y dyfodol (gan dybio y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r Ganolfan).** Mae'r *Pwyllgor yn deall bod gwaith cychwynnol y Ganolfan wedi canolbwytio ar ddefnyddio technoleg ddigidol i wella gwasanaethau i ddefnyddwyr Gofal Cymdeithasol Oedolion mewn tri awdurdod lleol.*

Yn 2020/21, mae'r Ganolfan wedi cael ei hariannu'n rhannol gan y Gronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol ac mae wedi canolbwytio ar gamau gwaith 'darganfod' ac 'alffa' cychwynnol. Caiff y sector iechyd ei gynrychioli yng ngrŵp llywio'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, drwy oruchwyliaeth drawsbortffolio o'r maes Digidol gan Weinidogion, a thrwy gyfarfod wythnosol â Phrif Swyddogion Digidol sy'n cynnwys y Ganolfan, Prif Swyddogion Digidol Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru, a Chyfarwyddwr Technoleg Ddigidol a Thrawsnewid y Grŵp lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys £4.9m o gymorth ar gyfer y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol yn ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2021/22. Bydd hyn yn gam pwysig ymlaen i'r Ganolfan a gaiff ei chefnogi drwy waith ymgysylltu agos â rhanddeiliaid, gan gynnwys yr Awdurdod lechyd Arbennig Digidol newydd. Fel rhan o waith ymgysylltu cynnar â rhanddeiliaid, mae Cadeirydd Dros Dro a Phrif Weithredwr Dros Dro yr Awdurdod lechyd Arbennig Digidol wedi cyfarfod â'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol i drafod cyfleoedd a chysondeb. Mae'r Ganolfan hefyd wedi cydweithio â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru fel rhan o drafodaeth panel yn canolbwytio ar Sgiliau Digidol yn Sector Cyhoeddus Cymru.

Mae prosiect alffa cyntaf y Ganolfan gyda'r 'sgwad arbenigol' wedi canolbwytio ar wasanaethau cymdeithasol oedolion, gyda thri awdurdod lleol yn gweithio gyda'r Ganolfan a defnyddwyr gwasanaethau i ystyried opsiynau ar gyfer trawsnewid gwasanaethau digidol a goresgyn rhwystrau, megis anawsterau y mae defnyddwyr yn eu hwynebu wrth ddefnyddio gwefannau cynhorau.

## **Cyllid ac Adnoddau**

**Dadansoddiad o'r amcangyfrif o'r costau ar gyfer sefydlu a gweithredu'r Awdurdod lechyd Arbennig Digidol arfaethedig, gan gynnwys yr amcangyfrif o'r gyllideb gweithredu o'i chymharu â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a'r rhesymau dros unrhyw wahaniaethau.** Yn ei Ddiweddarriad ar lechyd a Gofal Digidol ym mis Medi 2019, cyhoeddodd y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn trosglwyddo i Awdurdod lechyd Arbennig Digidol newydd o fis Ebrill 2021 ymlaen. Y bwriad wrth wneud hyn yw cryfhau llywodraethu ac atebolrwydd, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer cadeirydd annibynnol newydd ac aelodau bwrdd sydd â phrofiad a dealltwriaeth o newid digidol. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar wahanol agweddu ar ei chynigion ar gyfer yr Awdurdod lechyd Arbennig digidol. Mae'r ymgynghoriad yn nodi y bydd 'rhywfaint o arbenigedd ychwanegol yn cael ei recriwtio er mwyn cyflawni'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau ychwanegol a gynigir' ond nid yw'n rhoi amcangyfrif o'r costau.

Cost amcangyfrifedig sefydlu'r Awdurdod lechyd Arbennig Digidol yw £1m, a'r gost ychwanegol amcangyfrifedig ar gyfer gweithredu'r Awdurdod lechyd Arbennig Digidol yw £2m y flwyddyn.

Caiff costau sefydlu'r Awdurdod eu rheoli drwy Raglen Awdurdod lechyd Arbennig Digidol Llywodraeth Cymru a'i ffrydiau gwaith, ac maent yn cynnwys costau untrwyneud â throsglwyddo swyddogaethau a phrosesau i'r sefydliad newydd. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys gwaith cyfreithiol ac ariannol, megis atodi a newyddu contractau, trosglwyddo staff presennol o dan y Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth), a pharatoi cyfriflyfrau ariannol newydd. Mae'r costau sefydlu hyn hefyd yn cynnwys costau staff Rhaglen yr Awdurdod lechyd Arbennig. Bydd Rhaglen yr Awdurdod lechyd Arbennig yn rhedeg am ddwy flynedd o fis Ebrill 2020 i fis Mawrth 2022.

Mae'r costau gweithredu ychwanegol yn rhai rheolaidd ac yn ymwneud â'r trefniadau llywodraethu ar gyfer yr Awdurdod lechyd Arbennig Digidol, gan gynnwys penodi Cadeirydd a Bwrdd, a swyddogaethau llywodraethu corfforaethol a swyddogaethau statudol ychwanegol. Mae'r costau hyn wedi cael eu meinchnodi yn erbyn y costau gweithredu ychwanegol cychwynnol ar gyfer AaGIC pan gafodd ei sefydlu yn 2018, a oedd oddeutu £1.7m y flwyddyn.

Mae'r broses ymgynghori wedi cadarnhau cwmpas estynedig a rhai swyddogaethau ychwanegol ar gyfer yr Awdurdod lechyd Arbennig Digidol newydd ac, fel y gwyddoch, mae cynnydd mewn buddsoddiad strategol mewn gwasanaethau digidol yn gyffredinol. Er nad yw hyn yn benodol i strwythur sefydliadol yr Awdurdod lechyd Arbennig, bydd y pwylgor am nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn cynyddu ei chyllid craidd ar gyfer y sefydliad newydd o 2021/22, o gymharu â chyllid hanesyddol ar gyfer Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Mae cyllid craidd Llywodraeth Cymru yn un o dair prif ffynhonnell refeniw ar gyfer gwasanaethau digidol cenedlaethol, ar y cyd â chyllid seiliedig ar fformiwlau ar gyfer technoleg ddigidol mewn gofal sylfaenol, a refeniw o gytundebau lefel gwasanaeth gan sefydliadau eraill GIG Cymru. Roedd y cyllid craidd oddeutu £30m yn 2019/20, £36m yn 2020/21, a bydd yn cynyddu eto i £42m yn 2021/22. Bydd y cynnydd hwn mewn cyllid craidd yn darparu ar gyfer

swyddogaethau newydd a chost ychwanegol gweithredu fel Awdurdod Iechyd Arbennig Digidol, sef £2m.

Mae'r buddsoddiad ychwanegol hwn yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau digidol cenedlaethol o 2021/22 ar wahân i'r Gronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol sy'n werth £75m. Mae'n bwysig bod yr Awdurdod Iechyd Arbennig Digidol newydd yn cael ei ariannu'n ddigonol a bod ganddo setliad cyllido rhagweladwy, fel y gall gefnogi gwaith trawsnewid digidol ehangach ar draws y sector iechyd a gofal yng Nghymru.

**Y diweddaraf ynglŷn â'r Gronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol i gynnwys dadansoddiad o'r dyraniad/gwariant hyd yma. Fel rhan o hyn, byddai'r Pwyllgor yn croesawu gwybodaeth am sut y defnyddiwyd y Gronfa hon i gefnogi'r ymateb i COVID-19, yr hyn y gallai fod wedi'i olygu i brosiectau eraill a gynlluniwyd, a sut y gallai'r prosiectau hynny gael eu hariannu fel arall. Yn ei ddiweddarriad ym mis Medi 2019, cyhoeddodd y Gweinidog £50 miliwn i'r Gronfa i gefnogi'r gwaith o gyflawni pum blaenoriaeth (trawsnewid gwasanaethau digidol i gleifion a'r cyhoedd, trawsnewid gwasanaethau digidol i weithwyr proffesiynol, buddsoddi mewn data a gwybodaeth ddeallus, moderneiddio dyfeisiau a symud i wasanaethau cwmwl, a seiberddiogelwch a chadernid).**

Yn y lle cyntaf, cafodd y Gronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol a gyhoeddwyd gan y Gweinidog ym mis Medi 2019 ei blaenoriaethu ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith a dyfeisiau. Cadarnhawyd y dull gweithredu hwn yn dilyn gwaith ymgysylltu agos gydag arweinwyr digidol ym mhob rhan o GIG Cymru a'i nod oedd disodli seilwaith oedd wedi cyrraedd diwedd ei oes a seilwaith etifeddol, yn genedlaethol ac yn lleol. Er enghraifft, dyrannwyd cyllid i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru er mwyn uwchraddio gweinyddion a seilwaith rhwydwaith, ac i fyrdau ac ymddiriedolaethau iechyd i uwchraddio dyfeisiau defnyddwyr a seilwaith Wi-Fi.

Cafodd y dyraniadau rhagolygol ar gyfer 2019-20, a wnaed erbyn mis Mawrth, eu hailflaenoriaethu ym mis Ebrill a mis Mai er mwyn cefnogi'r ymateb i COVID-19. Lle y bo'n bosibl, gwnaed y gwaith ailflaenoriaethu hwn mewn ffordd a oedd yn ystyried rhagleni presennol - er enghraifft cyflymwyd y rhaglen ar gyfer rhoi Office 365 ar waith a newidiwyd camau swyddogaethau newydd er mwyn cyflwyno system fideogynadledda Microsoft Teams yn gynt; a chafodd buddsoddiad mewn seilwaith ei ailstrwythuro i ganolbwytio ar ddyfeisiau symudol a lled band y rhwydwaith, er mwyn cefnogi'r gallu i weithio gartref ac o bell. Mewn achosion eraill, cefnogwyd rhagleni presennol i ehangu prosiectau peilot lleol yn genedlaethol - er enghraifft, rhoddwyd ymgyngoriadau fideo, sef rhan o'r rhaglen Gofal wedi'i Alluogi gan Dechnoleg, ar waith yn genedlaethol ar gyfer y sector gofal sylfaenol cyfan erbyn diwedd mis Mai, ac yna ehangwyd hyn i leoliadau gofal eraill.

Yn ogystal, cafodd adnoddau eu hailgyfeirio o ragleni presennol i gefnogi prosiectau newydd er mwyn ymateb i COVID-19 – er enghraifft, mae timau a gafodd eu reciriwto i'r Rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol wedi cefnogi sawl elfen o'r ymateb i COVID-19, gan gynnwys systemau olrhain cysylltiadau, profi a brechu.

Mae pwysau yn sgil COVID-19 wedi effeithio ar weithgarwch a ariennir gan y Gronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol. Mae amserlenni cyflawni rhai rhagleni presennol wedi cael eu gohirio, ac nid yw rhagleni rhagolygol eraill wedi gallu

cwblhau eu cam cyn rhaglen ac felly nid ydynt wedi dechrau fel y rhagwelwyd. Nid yw hyn oherwydd diffyg cyllid ond, yn hytrach, oherwydd diffyg gallu i gyflawni – mae timau digidol wedi bod o dan bwysau mawr ers mis Ebrill yn cyflwyno ymateb brys i COVID-19, fel y mae timau clinigol a rhannau eraill o'r GIG a gwasanaethau gofal.

Ceir dadansoddiad o ddyraniadau'r Gronfa Buddsoddi Blaenorriaethau Digidol hyd yn hyn yn Atodiad B.

Caiff y Gronfa ei chynyddu i £75m yn 2021-22. Bydd pwysau yn sgil COVID-19 yn parhau i effeithio ar y gallu i gyflawni ac mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag arweinwyr digidol ym mhob rhan o GIG Cymru drwy'r Gell Ddigidol i ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â hyn.

**Y diweddaraf ynglŷn ag unrhyw waith diweddar a wnaed gan Lywodraeth Cymru i ddeall costau cyffredinol a fforddiadwyedd ei strategaeth ddigidol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol dros y blynnyddoedd nesaf, yn enwedig ar ôl yr adolygiad saerniâeth.** Yn ei adroddiad yn 2018 ynglŷn â systemau gwybodeg yn GIG Cymru, nododd yr Archwilydd Cyffredinol 'Yn 2016, am y tro cyntaf, mae GIG Cymru wedi nodi'r costau dangosol a'r amserlenni ar gyfer gwireddu ei strategaeth. Amcangyfrifir yn fras mai'r gost dros bum mlynedd fydd £484 miliwn ar ben y cyllidebau sy'n bodoli eisoes'.

Ar gyfer y ddwy flynedd a hanner o fis Medi 2019 i fis Mawrth 2022, bydd Llywodraeth Cymru wedi darparu £185m o gyllid ychwanegol ar gyfer trawsnewid digidol, ar ben y cyllidebau sy'n bodoli eisoes. Disgwylir y bydd y buddsoddiad rhagolygol mewn gwasanaethau digidol ar gyfer COVID-19 – megis olrhain cysylltiadau, profi a brechu – yn cynyddu'r ffigur hwn i fwy na £200m o gyllid digidol ychwanegol.

Fel y bydd y Pwyllgor yn ei nodi, mae hyn yn llai na hanner y gofyniad rhagolygol dros bum mlynedd a wnaed yn 2016, sef £484m. Yn ei gyhoeddiad ym mis Medi 2019, pwysleisiodd y Gweinidog fod angen atgyfnerthu trefniadau llywodraethu a chyflawni ochr yn ochr â lefel uwch o gyllid, fel bod mwy o fuddsoddiad yn cael ei gefnogi gan fwy o gapasiti a gallu. Y bwriad yw y bydd hyn yn rhoi sicrwydd o ran gwerth am arian ac mae mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor yn 2018, a oedd yn feirniadol o ran capaciti a gallu i gyflawni.

Eleni, bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw golwg dros gostau a fforddiadwyedd sicrhau trawsnewidiad digidol pellach, gan ystyried gwersi a ddysgwyd o'r ymateb i COVID-19 a'r ffordd y mae'r heriau a'r cyfleoedd mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol wedi newid ers 2018. Disgwyliaf y bydd hyn yn arwain at strategaeth ddigidol newydd ar gyfer iechyd a gofal a fydd yn gosod blaenorriaethau newydd, yn cydgrynhai adolygiadau strategol diweddar o dechnoleg ddigidol, yn ystyried y broses o sefydlu lechyd a Gofal Digidol Cymru, ac yn cyd-fynd â Strategaeth Ddigidol newydd ar gyfer Cymru a gaiff ei chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn fuan.

## System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru

**Safbwyt Llywodraeth Cymru ynghylch a yw'n ystyried bod Rhaglen System Wbodaeth Gofal Cymunedol Cymru wedi gwneud cynnydd boddhaol hyd yn hyn.** Canfu'r Archwilydd Cyffredinol fod gweledigaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer System Wbodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn dal i fod yn bell iawn o gael ei gwireddu. Yn ôl yr adroddiad, "Ar 31 Awst 2020, roedd 19 o sefydliadau'n defnyddio WCCIS neu wedi llofnodi gorchmynion defnyddio, gyda phedwar mewn trafodaethau gweithredol a chwech eto i ymrwymo. O'r 19 sefydliad, roedd 13 awdurdod lleol a dau fwrdd iechyd wedi mynd yn fyw. Fodd bynnag, gall 'byw' olygu pethau gwahanol. Ar hyn o bryd, mae gwahaniaethau yn y ffordd y mae sefydliadau'n dewis defnyddio WCCIS yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer gweithio integredig ac yn codi materion eraill ynghylch gwerth am arian". Cafwyd amcangyfrif cychwynnol y gallai pob awdurdod lleol a bwrdd iechyd fod yn defnyddio'r system erbyn diwedd 2018.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adroddiad a'r argymhellion diweddar gan Archwilio Cymru. Mae'r adroddiad yn cydnabod uchelgais a chymhlethdod cynhenid rhaglen WCCIS, a adlewyrchir yn y trefniadau llywodraethu unigryw a'r dull partneriaeth sy'n dod â llywodraeth leol a'r GIG ynghyd ar lefel arweinwyr.

Nid yw'r Rhaglen wedi cyflawni ei hamcangyfrif gwreiddiol y byddai pob awdurdod lleol a bwrdd iechyd yn defnyddio'r system erbyn diwedd 2018 ac mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod y targed hwn yn rhy uchelgeisiol.

Ers 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu mwy o gyllid i gefnogi Rhaglen WCCIS a sefydliadau'r GIG drwy'r Gronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol, ac i Awdurdodau Lleol drwy'r Gronfa Gofal Integredig. Mae'r ymateb i COVID-19 wedi effeithio ar gynllun cyflawni WCCIS yn ystod 2020, fel y mae wedi'i wneud ar ragleni trawsnewid strategol eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag arweinwyr y Rhaglen i roi'r argymhellion o adroddiad Archwilio Cymru ar waith a chanfod ffyrdd o gyflymu gorchmynion defnyddio a chamau 'mynd yn fyw'.

**A yw Llywodraeth Cymru yn dal i ystyried bod angen cyflwyno un system ar draws 29 o sefydliadau i gefnogi ei hymdrehigion i ddarparu gofal iechyd a chymdeithasol di-dor ac integredig. Ac, os felly, yr hyn y bydd yn ei wneud nawr i sicrhau y bydd yn cael ei chyflwyno'n fwy eang cyn diwedd tymor y contract, gan gynnwys unrhyw gerrig milltir allweddol neu ddiweddariad o ran dyddiadau lansio arfaethedig.** Mae'r adroddiad yn nodi "...mae Llywodraeth Cymru yn dal i ystyried bod dull cenedlaethol o rannu gwybodaeth rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn fodel priodol i alluogi cydgysylltu gofal yn y gymuned". Canfu hefyd, er gwaethaf ymdrehigion i gyflymu'r broses, fod y rhagolygon ar gyfer cyflwyno'r System yn llawn a gweld y manteision yn parhau i fod yn ansicr. Nododd fod rhai problemau pwysig i'w datrys o hyd, er enghraift, o ran gweithrediad y system, safonau data ac adrodd ar fanteision.

Fel y nodwyd yng nghynllun *Cymru lachach*, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd rhoi un system ddigidol ar waith ym mhob sefydliad yn ffordd bwysig o hwyluso gwaith integredig a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gefnogi rhaglen WCCIS i wneud cynnydd o ran gweithredu a mabwysiadu erbyn diwedd tymor y contract. Mae Llywodraeth

Cymru yn croesawu'r adroddiad diweddar gan Archwilio Cymru ac yn derbyn yr argymhellion:

1. *Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, cyn ymrwymo unrhyw gyllid canolog pellach, yn gweithio gyda Thîm Rhaglen Genedlaethol WCCIS, byrddau iechyd, awdurdodau lleol a'r cyflenwr i:*
  - a. *Lunio achos busnes wedi'i ddiweddu;*
  - b. *Sicrhau bod gan y sefydliadau dan sylw'r gallu angenrheidiol i gefnogi gweithredu;*
  - c. *Dwyn ynghyd ddarlun cenedlaethol clir ar adborth gan ddefnyddwyr rheng flaen am berfformiad ac ymarferoldeb cyffredinol y system.*
2. *Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Thîm y Rhaglen Genedlaethol i ystyried sut y gellid bod wedi cryfhau contract WCCIS i gefnogi a chymhell y broses o gyflawni a rheoli risg; a sut y gellir cymhwys o gwersi perthnasol i unrhyw drefniadau contractio olynol a chaffael cyhoeddus ehangach.*

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Rhaglen i roi'r argymhellion ar waith ac ystyried opsiynau a fyddai'n cryfhau trefniadau contractiol, arwain a chyflawni. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gydag arweinwyr y rhaglen a rhanddeiliaid a phartneriaid eraill i adolygu blaenorriaethau technegol a dull y rhaglen, fel rhan o drafodaethau am amserlen gyflawni a cherrig milltir. Ers llunio rhaglen WCCIS, mae'r dull strategol mewn perthynas â chofnodion iechyd a gofal digidol wedi newid, yn benodol, mae ymrwymiad i roi safonau cyffredin a saernïaeth agored ar waith, fel y disgrifir yn Adolygiad o Saernïaeth Ddigidol 2019.

Bydd yr holl waith hwn yn cael ei lywio gan wersi a ddysgwyd o'r ymateb i COVID-19, er enghraifft ar gyfer gwasanaeth olrhain cysylltiadau Cymru gyfan, a ddefnyddir fel llwyfan cyffredin gan 31 o sefydliadau'r GIG a llywodraeth leol. Er bod y system olrhain cysylltiadau yn newydd ac yn llawer symlach o ran ymarferoldeb na WCCIS, mae wedi dangos gwerth ac effeithiolwydd lletya ar y cwmwl, a'r defnydd o safonau cyffredin ar gyfer data, rhyngwynebau defnyddwyr ac adrodd.

**Y diweddaraf ynglŷn â'r costau disgwyliedig ar gyfer adnewyddu caledwedd fel y nodir yn yr adroddiad a'r dull arfaethedig o fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg o ran cyllid. Byddem hefyd yn croesawu eglurhad o sut mae gwerth am arian y rhaglen adnewyddu caledwedd yn cael ei ystyried ochr yn ochr ag unrhyw uwchraddiad posibl i'r system i blatfform meddalwedd newydd yn y cwmwl ac a allai penderfyniad cynharach yngylch y platfform meddalwedd fod wedi diddymu'r angen i adnewyddu'r caledwedd.** Canfu'r Archwilydd Cyffredinol fod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo tuag £1 miliwn i ariannu rhaglen adnewyddu, sy'n ofynnol yn ôl y contract, ar gyfer y caledwedd sy'n cefnogi System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Efallai y bydd y rhaglen adnewyddu yn costio mwy na'r swm a neilltuwyd ac mae sefydliadau sydd wedi llofnodi gorchmyntion defnyddio yn atebol i dalu cyfran o unrhyw gostau ychwanegol. Canfu'r adroddiad hefyd fod Tîm Rhaglen Genedlaethol y System yn disgwyli cwbllhau, cyn diwedd 2020-21, arfarniad manwl o'r costau, manteision a risgau sy'n gysylltiedig â symud i fersiwn fwy diweddar o'r system a leolir ar y cwmwl.

Rhagwelwyd y byddai angen adnewyddu caledwedd yng Ngorchymyn Defnyddio Cymru Gyfan a'r Cytundeb Gwasanaethau Meistr ym mis Mawrth 2015. O ran amseriad y gwaith adnewyddu, nodir yng Nghymal 11 Gorchymyn Defnyddio Cymru Gyfan fod yn rhaid iddo fod ar waith erbyn 31 Mawrth 2021. Yr Awdurdod, ar ran y defnyddwyr, sy'n gyfrifol am gost resymol y gwaith adnewyddu hwn.

Er mwyn ystyried gwerth am arian, mae'r Rhaglen wedi ymgymryd ag Arfaniad ffurfiol o Opsiynau, a oedd yn ystyried amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys system feddalwedd newydd a gaiff ei lletya ar y cwmwl. Mae'r broses hon wedi dod i'r casgliad mai adnewyddu'r galedwedd gan gadw'r system bresennol sy'n cynnig y gwerth gorau am arian, er gwaethaf y gost uwch, sef £1.93m, o gymharu â'r rhagolwg gwreiddiol, sef £1.0m. Mae'r gwahaniaeth o ganlyniad i drwyddedau meddalwedd system a gweinydd hanfodol sydd eu hangen ar gyfer y galedwedd a gaiff ei hadnewyddu. Nid oedd y rhagolwg gwreiddiol wedi darparu ar gyfer hyn. Gan gynnwys y gost uwch hon, gwariant cyfalaf rhagolygol Rhaglen WCCIS hyd at fis Mawrth 2022 yw £9.6m, sydd o fewn y rhagolwg o £9.9m yn yr Achos Busnes Llawn hyd at yr un dyddiad.

Mae Rhaglen WCCIS wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru na fyddai penderfyniad cynharach ynghylch y gwaith adnewyddu caledwedd wedi arwain at ganlyniad gwahanol nac ychwaith wedi ein galluogi i symud oddi wrth galedwedd a reolir i wasanaeth a gaiff ei lletya ar y cwmwl gan nad yw'r fersiwn bresennol ar y cwmwl yn cynnig yr un ymarferoldeb â'r fersiwn a ddefnyddir yng Nghymru ar hyn o bryd.

Fel y nodir yn yr Adroddiad Archwilio, mae'r Rhaglen Genedlaethol wedi dechrau gwaith ar Adolygiad o Opsiynau Strategol. Mae pwysau yn sgil COVID-19 wedi effeithio ar yr amserlen ar gyfer y gwaith hwn. Er mwyn sicrhau y gwneir gwaith ymgysylltu digonol â rhanddeiliaid a defnyddwyr, ymgymrir â'r gwaith hwn yn ystod 2021-22.

**Mae'r Pwyllgor yn dymuno cael copi o'r adroddiad blynnyddol disgwyliedig ynglŷn â chynnydd y rhaglen ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd mis Mawrth 2020, a chrynodeb o unrhyw dystiolaeth ychwanegol y byddai Llywodraeth Cymru a Thîm y Rhaglen Genedlaethol yn tynnu sylw ati ynghylch gwireddu manteision.** Mae'r adroddiad yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn disgwyli i Dîm y Rhaglen Genedlaethol lunio adroddiad blynnyddol cynhwysfawr ynglŷn â chynnydd y rhaglen, gan ddechrau gyda'r cyfnod hyd at ddiwedd mis Mawrth 2020. Gohiriwyd yr adroddiad hwnnw o ganlyniad i bandemig COVID-19. Pan ofynnodd yr Archwilydd Cyffredinol am dystiolaeth o fuddion lleol a rhanbarthol, dim ond ychydig o adborth a gafodd ei dîm. Fodd bynnag, adeg ei gyhoeddi dywedodd Tîm y Rhaglen Genedlaethol mewn datganiad fod y System 'eisoes yn gwneud gwahaniaeth' a bod y sefydliadau sydd wedi mynd yn fyw yn 'profi ei buddion'.

Ym mis Awst 2020, lluniodd y Rhaglen Genedlaethol Gynllun Busnes tair blynedd newydd, y gellir ei weld yn Atodiad C. Yn sgil pandemig COVID-19 a'r adroddiad diweddar gan Archwilio Cymru am y rhaglen, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno y caiff adroddiad blynnyddol ar gynnydd ei lunio ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2021. Bydd yr adroddiad blynnyddol hwn yn cynnwys allbynnau cychwynnol y gwaith i sefydlu fframwaith cenedlaethol ar gyfer adrodd am fuddion. Mae hwn wedi cael ei

ddatblygu mewn partneriaeth â'r Rhagleni WCCIS Rhanbarthol ac mae gwaith eisoes wedi dechrau ar y cynllun gweithredu.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i gael adroddiadau monitro a rheoli chwarterol fel rhan o drefniadau llywodraethu rheolaidd y Gronfa Buddsoddi Blaenorhaethau Digidol.

**Y diweddaraf ynglŷn â'r cynnydd o ran cyflwyno'r gallu i weithio'n symudol o fewn System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, gan gynnwys unrhyw ganlyniadau o'r cynllun peilot a'r cynnydd o ran profi swyddogaethau gwell.**  
*Mae'r adroddiad yn nodi'r canlynol: "O dan ofynion gwreiddiol y contract, rhaid i WCCIS allu gweithio ar blatfform symudol drwy systemau diwirf a 3/4G fel y gall staff y GIG ac awdurdodau lleol sy'n gweithio yn y gymuned gael mynediad iddo. Bydd fersiwn o'r ap ar gyfer dyfeisiau symudol sy'n seiliedig ar y gofynion gwreiddiol yn cael ei dreialu cyn diwedd 2020. Mae'r peilot wedi'i ohirio'n rhannol oherwydd effaith COVID-19 a gallu sefydliadau lleol i gefnogi'r gwaith hwn. Cytunwyd hefyd ar swyddogaethau gwell a disgwyli'r iddynt gael eu profi'n fuan, er enghraifft i gynnwys rheoli apwyntiadau".*

Mae Rhaglen WCCIS wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru y bydd y fersiwn beilot o ap WCCIS ar gyfer dyfeisiau symudol, sydd wedi profi oedi yn sgil COVID-19, ar gael erbyn mis Mawrth 2021. Bydd y peilot yn defnyddio fersiwn 1.3 o'r ap, sydd wedi'i darparu gan y cyflenwr ochr yn ochr â'r datblygiad cyfredol o feddalwedd graidd (yr ail o bedwar datblygiad o dan y map trywydd cyflawni ymarferol y cytunwyd arno).

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno â Rhaglen WCCIS y bydd yn darparu diweddariadau rheolaidd ar gynnydd y peilot, drwy'r cam profi a'r cam defnyddio dilynol i'r peilot a'r lansiad, fel rhan o broses fonitro ac adrodd reolaidd.

### **Problemau yn Ymwneud â Systemau Penodol Eraill a Phroblemau Perfformiad**

**Y diweddaraf ynglŷn â'r cynnydd o ran cyflwyno system newydd i ddisodli System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru a chadarnhad bod yr holl arian a neilltuwyd yn dal i fod ar gael.** *Ym mis Tachwedd 2019, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi cymeradwyo £7.5 miliwn i gyflwyno system newydd i ddisodli System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru a nododd y byddai'r rhaglen newydd yn cael ei chwblhau erbyn mis Tachwedd 2022, ond y byddai'n ceisio cwblhau'r broses yn gynt.*

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i gyflwyno'r system newydd i ddisodli System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru cyn gynted â phosibl ac mae'r cyllid gofynnol ar gael ac wedi'i neilltuo o hyd.

Mae'r Bwrdd Rhaglen Gwybodeg Canser yn arwain y gwaith o gyflwyno'r system newydd i ddisodli CaNISC ac mae wedi adolygu opsiynau i gyflymu amserlen y rhaglen, neu gyflwyno elfennau allweddol o'r rhaglen yn gynt. Ym mis Medi 2020, adolygodd y Bwrdd yr amserlen gyflawni eto am fod angen symud y gwasanaethau cenedlaethol o Ganolfan Ddata Blaenafon i gyfleuster canolfan ddata newydd.

Nododd Bwrdd y Rhaglen y cynnydd a wnaed yn ystod 2020 o ran cynnwys data CaNISC yn y prif gofnod iechyd a gofal electronig, fel y gellir eu gweld drwy systemau cenedlaethol eraill, megis Porth Clinigol Cymru. Yn ogystal â manteision clinigol, mae hyn hefyd yn cynnig cadernid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau gwybodaeth am ganser.

